**Rheoliadau Grant Teithio Dramor Wartski**

**Rhagarweiniad**

Sefydlwyd Grant Teithio Tramor Wartski trwy ddwy ymddiriedolaeth elusennol a grëwyd gan y diweddar Isidore a Winifred Marie Wartski. Mae'r grant wedi ei wreiddio yn nhreftadaeth falch Prifysgol Bangor a'i hymrwymiad i addysg drawsnewidiol. Mae'r grant yn anrhydeddu cysylltiadau hanesyddol y teulu Wartski â Bangor, a sefydlodd gwmni gemwaith Wartski yn y ddinas - cwmni sy'n dal i fasnachu yn Llundain hyd heddiw.

Diben y wobr yw darparu cefnogaeth hanfodol i fyfyrwyr ymchwil ôl-radd Prifysgol Bangor sy'n ceisio cyfoethogi eu taith academaidd trwy fwrsariaeth teithio rhyngwladol, yn enwedig lle nad oes unrhyw gyllid arall ar gael. Mae'r cymhorthdal yn adlewyrchu ein cred gyffredin mewn agor drysau, ehangu gorwelion, a grymuso myfyrwyr i ennill profiad gwerth chweil trwy ymgysylltu rhyngwladol.

**Canllawiau a Rheoliadau ynghylch y Grant**

Bydd y rheoliadau canlynol yn berthnasol i Grant Teithio Dramor Wartski:

1. **Trosolwg o'r Grant**
   Gellir dyfarnu cyfraniad ariannol o hyd at £500 fesul myfyriwr i gefnogi tri myfyriwr ymchwil ôl-radd sy'n dymuno ymgymryd ag ymchwil dramor yn rhan o'u datblygiad academaidd. Bydd un myfyriwr o bob Coleg yn gymwys i dderbyn cefnogaeth fesul blwyddyn academaidd.
   - Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithas
   - Y Coleg Gwyddoniaeth a Pheirianneg
   - Y Coleg Meddygaeth ac Iechyd
2. **Pwy sy'n gymwys?**
   Bwriad y grant yw cefnogi teithio sy'n gysylltiedig â gwaith ôl-radd ymchwil nad oes cefnogaeth ariannol iddo fel arall, neu ychwanegu at gyllid presennol ar gyfer ymchwil - o ba bynnag ffynhonnell - os yw'r cyllid hwnnw'n annigonol. Gellir gwneud cais dim ond os trowyd at ffynonellau eraill yn gyntaf.
3. **Sut mae modd defnyddio'r arian?**
   Bwriadwyd y grant yn llwyr fel bwrsariaeth deithio i gefnogi gweithgareddau rhyngwladol sy'n gysylltiedig ag ymchwil. Dim ond ar gyfer treuliau sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â theithio dramor y mae modd defnyddio'r arian—megis teithiau ymchwil neu i fynd i gynadleddau rhyngwladol—lle mae'r Panel Dyfarnu yn ystyried bod y gweithgaredd yn fuddiol i'r ymchwil a wneir. Sylwch: ni ellir defnyddio'r grant ar gyfer unrhyw gostau eraill, megis offer, deunyddiau, na threuliau project cyffredinol sy'n gysylltiedig â'ch ymchwil.
4. **Amseru'r teithio**
   Gellir defnyddio'r grant teithio yn ystod y tymor neu yn ystod unrhyw un o gyfnodau gwyliau'r Brifysgol.
5. **Y broses ymgeisio**
   Gellir ymgeisio unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn academaidd, a hynny drwy ddefnyddio ffurflen a ddarperir gan yr Ysgol Ddoethurol. **Ar ôl ei chwblhau, anfonwch eich ffurflen gais i'r Ysgol Ddoethurol drwy ebostiopgr@bangor.ac.uk.**

6. **Meini prawf dyfarnu**
   Dyfernir pob grant fel y gwêl yr Ysgol Ddoethurol orau, a hynny ar ôl ymgynghori â phaneli o'r tri choleg a Chyfarwyddwyr Ymchwil Ôl-radd. Ystyrir ceisiadau yn ofalus, ac mae pob penderfyniad a wneir gan y panel dyfarnu yn derfynol.
7. **Talu ac Ad-dalu**
   Caiff y taliadau eu gwneud drwy ad-dalu costau ar ôl cyflwyno derbyniadau boddhaol ar ffurflen hawlio costau teithio a chynhaliaeth.
8. **Adroddiad Stiwardiaeth ar ôl y Daith**
   Ar ôl cwblhau'r daith, rhaid i bawb lwyddodd i gael grant gyflwyno adroddiad stiwardiaeth hyd at 250 o eiriau. Rhaid i'r adroddiad hwn fanylu ar y canlynol:
   - sut y defnyddiwyd y cyllid
   - beth oedd y profiad yn ei gynnwys
   - sut y cyfrannodd yr ymweliad at eich datblygiad academaidd neu bersonol

   Er mwyn ein helpu ni, Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr, i gynnwys eich taith ar ein tudalennau gwe https://www.bangor.ac.uk/giving/legacy-programme; https://www.bangor.ac.uk/news/wartski-overseas-travel-award ac mewn cyhoeddiadau eraill, mae'n ofynnol i chi hefyd ddarparu'r canlynol:
   - lluniau neu fideos clir o ansawdd y mae modd eu hargraffu
   - dyfyniad byr gennych yn myfyrio ar y profiad

   **Rhaid cyflwyno pob adroddiad a deunydd cysylltiedig** i Persida Chung, y Swyddog Datblygu, drwy e-bostio **pvchung@bangor.ac.uk**. Gwnewch yn siŵr bod eich goruchwyliwr wedi ei gopïo i'r e-bost.